



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 4 Rhagfyr 2018 am 6.00yh
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 4 December 2018 at 6.00pm
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors John Adams-Lewis (**yn y gadair/in the chair**), Clive Davies, Graham Evans, Elaine Evans, Marilyn Farmer, Richard Jones, Wyn Jones, Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill, Trystan Phillips, Shan Williams, Mr Wynford Jones (*clerc/clerk*).

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Dirprwy Faer, y Cyng. Shan Williams, y Maer yn ôl i Aberteifi yn dilyn ei daith i Batagonia. Trosglwyddodd yr awenau yn ôl iddo. Diolchodd ef i bawb am y croeso ac i'r Cyngorydd Williams am ddirprwyo yn ei absenoldeb, cyn symud ymlaen gydag agenda'r cyfarfod. Cafwyd braslun o'i daith i'r Wladfa: cyflwynodd swm o arian o elw'r cyngerdd mawreddog a gynhaliwyd yn y Castell yn yr haf ynghyd â chyfraniad oddi wrtho ef a'r Faeres, Mrs Morina Adams-Lewis, tuag at Ysgol Gymraeg y Cwm. Bu mewn cyfarfod gyda Rhaglaw Chubut Mariano Arcioni, a chyflwynodd araith yn nathliad Diwrnod Dathlu Trevelin yng nghwmni Sr Omar Aleuyi, y Maer, a Sr Arcioni.

Cyfeiriodd at farwolaeth ddau o gyn-athrawon uchel eu parch Ysgol Uwchradd Aberteifi, sef Mr Gareth Jerman a Mr Hywel Williams: bu'r ddau yn athrawon hir-dymor yno ac yn gyfranwyr helaeth i gymuned y dref. Cydymdeimlwyd â Mrs Meinir Jerman a Mrs Carole Williams yn eu hiraeth. Llongyfarchodd y Cyng. Clive Davies ar ei ymdrechion i sicrhau unwaith eto bod tref Aberteifi wedi ei chymeradwyo yng ngwobrau Strydoedd Mawr Prydain Fawr 2018. Yn yr un modd, llongyfarchwyd swyddogion ac actorion Opera Teifi ar eu cynhyrchiad lliwgar o'r "Gondoliers" yn Theatr Mwldan yr wythnos ddiwethaf. Dymunodd yn dda i Jamie Lewis cyn iddo eto ymdrechu ym myd y dartiau cenedlaethol.

Ar nodyn gwahanol, cyfeiriodd y Maer ei deimladau'n gryf at y newidiadau a welir yng Ngardd Brioude. Roedd yn siomedig bod y mur wedi ei ddymchwel a bod y gwaith wedi ei wneud cyn i ymgynghoriad llawn gymryd lle gyda'r partneriaid, sef Cyngor Tref Aberteifi a Phwyllgor Gefeillio Brioude/Aberteifi. Dangoswyd, yn ei dyb, amharch i deulu a choffadwriaeth y diweddar Llwyd Edwards. Cytunwyd bod llythyr yn mynegi anfodlonrwydd y cyngor yn cael ei ddanfon at ymddiriedolwyr Cadwgan gan ofyn iddynt sicrhau cyfathrebu cywir yn y dyfodol.

The Deputy Mayor, Cllr Shan Williams, welcomed the Mayor on his return from Patagonia; she returned the chair to Cllr Adams-Lewis. He thanked Cllr Williams for deputising in his absence and proceeded with the agenda of the meeting. He gave a short résumé of his journey: a sum of money, being the proceeds of the grand summer concert held in Cardigan Castle, along with a personal contribution from the Mayor and Mayoress was contributed to Ysgol y Cwm in Trevelin. A meeting was held with the Governor of Chubut, Sn Mariano Arcioni; the following day (25 November) greeted the Trevelin Day of Celebration culminating with sharing tea with Sr Omar Aleuyi, the Mayor of Trevelin, and Sr Arcioni. An official welcome was attended the following day in the company of the Trevelin Welsh Society and officers of Ysgol y Cwm where the presentations were made.

The Mayor referred to the passing of two much respected past teachers of Ysgol Uwchradd Aberteifi, Mr Gareth Jerman and Mr Hywel Williams; both had been long-term teachers at the school and had contributed greatly to the local community. The council's condolences were offered to Mrs Meinir Jerman and Mrs Carole Williams. Cllr Clive Davies was congratulated once again on placing Cardigan on the map, with the town winning the Highly Commended Rising Star Award in the Great British High Street Awards 2018. Opera Teifi was commended for its polished performances of the "Gondoliers" at Theatr Mwldan. Jamie Lewis was wished luck at the forthcoming World Darts Championships.

On a different note, the Mayor sternly vented his dismay at the changes to the Brioude Garden wall. He was disappointed that the work had proceeded without a full consultation taking place with partners, viz Cardigan Town Council and the Brioude/Cardigan Twinning Committee. He added that the action was an affront to the fond remembrance of the architect, the late Mr Llwyd Edwards, and his family. It was agreed that a letter, expressing the council's dismay, be forwarded to the Cadwgan trustees, requesting better future communication.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllr Debra Griffiths.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau. No apologies were received.

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	<i>Holl faterion cynllunio / All planning matters</i>
Y Cyng. / Cllr Steffan Morgan	<i>Cynllunio / Planning A181128</i>

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 6 Tachwedd.

Confirmation of Minutes of 6 November Council Meeting.

Tud. 1426, eitem 13(b)(i): "Y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis" ychwanegodd bod coed a phlanhigion...

Page 1426, item 13(b)(i): "The Mayor, Cllr John Adams-Lewis" stated that debris has accumulated...

Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Catrin Miles bod cofnodion cyfarfod 6 Tachwedd yn gywir.

With the above amendment, Cllr Marilyn Farmer proposed that the 6 November council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Catrin Miles.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion. There were no matters arising from the minutes.

6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd Dyddiadur y Maer am fis Tachwedd yn y cyfarfod.

The Mayor's Diary of Events for November was distributed at the meeting.

7. Cynllunio / Planning.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A181128	Screwfix Direct Ltd.: Unit 7 Parc Teifi Business Park	Change of use from Class B1 (Business) to Class B8 (Storage or distribution) together with associated external alterations.	The council unanimously opposes the application and wishes to refer to the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015. The development would have a negative impact on similar local businesses in the area, consequently having a detrimental effect on the local economy.

8. (a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
9/11/18	Festive Lights: <i>Ychwanegiadau i'r goleuadau Nadolig. Additions to Christmas lights</i>	B1	4639	£1,446.36 (241.06)
12/11/18	The Royal British Legion Cardigan Branch: <i>Cyfraniad am blethdorch oddi wrth Uchel Siryf Dyfed. Donation for wreath from the High Sheriff of Dyfed (Mr Stephen Mansel Davies) (see Receipts below ★)</i>	A23	4640	£60.00 (0.00)
6/11/18	Litterpickers (Dave Drury): <i>Gofal am 11 stondin. Care of 11 stalls (Ffair Aberteifi/Cardigan Fair) (see Receipts below ⇨)</i>	D13	4641	£120.00 (0.00)
1/12/18	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Tachwedd / November). Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room Cyfarfodydd y Cyngor / Council Meetings (6 & 20/11/18) Band Lydan (Rhagfyr) / Broadband (December)</i>	A9 A9 A20	D/D 4642 4642	£250.00 (0.00) £50.00 (0.00) £20.00 0.00
21/11/18	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (6/11/18)</i>	A18	4643	£70.80 (0.00)
1/12/18	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Tachwedd / November)</i>	A5	4644	£763.03 (0.00)
12/11/18	Menter Aberteifi: <i>Hurio 11 stondin (Ffair Aberteifi) Hire of 11 stalls for Cardigan Fair (Craftspeople) (see Receipts below ⇨)</i>	D13	4645	£165.00 (0.00)
12/11/18	Menter Aberteifi: <i>Hurio Ystafell Radley a'r gegin (Sul y Cadoediad) Hire of Ystafell Radley and kitchen (Remembrance Day)</i>	A23	4645	£50.00 (0.00)
11/11/18	The Royal British Legion Cardigan Branch: <i>Cyfraniad am blethdorch. Donation for wreath</i>	A23	4646	£50.00 (0.00)
25/11/18	Penrallt Garden Centre Ltd: <i>Coeden Nadolig / Christmas tree</i>	B1	4647	£432.00 (72.00)
10/11/18	Jilly's Flowers: <i>50 o fasgedi blodau / hanging baskets Marchnad Aberteifi / Cardigan Market</i>	B1	4648	£450.00 (0.00)
6/11/18	D. E. Owen & Son: <i>Torri porfa Cae Chwarae Brenin Siôr Sed. Grass-cutting of King George 5th Playing Field</i>	B3	4649	£1,864.62 (310.77)
4/11/18	Y Cyng. John Adams-Lewis: <i>Ail ran o lwfans y Maer. Second instalment of Mayor's allowance</i>	A1	4650	£1,600 (0.00)
22/11/18	Argraffwyr E. L. Jones Printers: <i>Cofraglen Sul y Cadoediad/Remembrance Day Service souvenir leaflet. Canol plethdorch/wreath insert. Hysbysiadau/Notices for road closure.</i>	A23	4651	£365.20 (1.20)
29/11/18	David Evans & Sons: <i>Ysgythru tarian / Engraving of Christmas shop window shield.</i>	B5	4652	£3.20 (0.53)
18/7/18	Sutcliffe Play: <i>Cyfarpar chwarae Pentop play equipment</i>	C12	4653	£25,684.80 (4,280.80)
1/12/18	Mr John Morris: <i>Gwaith yng Ngardd Victoria. Clearing of flower beds at the Garden and the Cenotaph. Maintenance of Garden and planting, watering, etc.</i>	C1	4654 4655	£240.00 (40.00) £900.00 (150.00)
31/11/18	<i>Bachan Deche / Handyperson (Tachwedd / November)</i>	A19	4656	£290.40 (48.40)

Cynigiodd y Cyng. Siân Maehrlein bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans.

Cllr Siân Maehrlein proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Elaine Evans.

Mae'r clerc a'r Cyng. Catrin Miles wedi archwilio cyfrif Sutcliffe ac wedi ei gymeradwyo i'w dalu.

The clerk and Cllr Catrin Miles have scrutinised the Sutcliffe account and approved its payment.

Derbyniadau/Receipts:

9/10/18	<i>Llog y Banc / Bank interest</i>	£2.37
11/11/18	<i>Cyfraniad oddi wrth Uchel Siryf Dyfed / Donation received from Mr Stephen Mansel Davies (High Sheriff of Dyfed) to The Royal British Legion for wreath (see above contra payment) ★</i>	£60.00
13/11/18	<i>Oddi wrth fasnachwyr / From stallholders (Cardigan Fair) ✧</i>	£220.00
4/12/18	<i>Little Maldod (stallholder: Ffair Aberteifi/Cardigan Fair) ✧</i>	£22.00

(b) Gosod dyddiad i gyfarfod y gyllideb. Set date for budget meeting.

Cytunwyd cynnal cyfarfod misol y cyngor ar 8 Ionawr a chyfarfod i osod y gyllideb ar 15 Ionawr am 6.00 o'r gloch. Cynhelir yr Is-bwyllgorau ar 22 Ionawr.

It was agreed to convene the monthly meeting on 8 January and the meeting to set the budget on 15 January at 6.00pm. The Sub-committees will be held on 22 January.

9. Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.**(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:**

- (i) Penderfynodd Cabinet y cyngor sir gau Canolfan Croeso Aberteifi ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol (dim hwyrach na 31 Mawrth 2019) oherwydd gostyngiad yng nghyllideb gwasanaeth y Canolfannau Croeso. Cytunwyd cynnal trafodaethau pellach ynghylch darparu gwasanaeth gwybodaeth yn y Castell a chynnig cymorth wrth hyfforddi staff. Awgrymodd y Cyng. Richard Jones y dylai'r gwasanaeth gael ei hystyried i'w gosod yn natblygiadau newydd y Farchnad.

(b) Y Cyng. Elaine Evans:

- (i) Yn dilyn cyfarfod gyda Mr Barry Rees, Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau y cyngor sir, cafwyd gwybodaeth y bydd y materion a wyntyllwyd am sefyllfa gweinyddol Ysgol Uwchradd Aberteifi ei benderfynu gan ddyfarnwr annibynnol. Dymunwyd hefyd bod safle we'r ysgol yn cael ei ddiweddarau.

(c) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Ychwanegwyd gan y Cyng. Miles y dylid cadw anghydfod Ysgol Uwchradd Aberteifi yn gyfrinachol ar hyn o bryd.
- (ii) Nid yw'r sefyllfa i osod bolardiau ar gei'r Twysog Siarl er mwyn atal parcio cerbydau wedi ei ddatrys eto.
- (iii) Parêd Llusernau Aberteifi: Datgelwyd bod yna drwydded casglu tuag at y tân gwyllt ar hyd y stryd yn ogystal â thrwydded gan elusen Ambiwlans Awyr Cymru wedi eu caniatáu. Roedd Ambiwlans Awyr wedi derbyn trwydded i wneud Casgliad Stryd nos Wener, 7 Rhagfyr, felly nid yw'n bosib i'r Masnachwyr gasglu'r noson honno ar y stryd. Fodd bynnag, mae perffaith hawl iddynt gasglu yn Theatr Byd Bychan, Neuadd y Dref a safle'r Castell. Bydd y Scowtiaid (*Sea Scouts*) â bwcedi casglu arian tuag at y tân gwyllt, sydd dan ofal y Masnachwyr.

(a) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) The county council Cabinet has agreed to close Cardigan Tourist Information Centre at the end of the present financial year (no later than 31 March 2019) owing to a reduction in the TIC service budget. Further discussions will take place regarding the provision of an information service at Cardigan Castle and to offer assistance with staff training. Cllr Richard Jones added that consideration be made to site the service at Cardigan market and to include this in the plans.

(b) Cllr Elaine Evans:

- (i) Following a meeting with Mr Barry Rees, the county council Strategic Director for Learning and Partnerships, it was confirmed that the issues concerning Ysgol Uwchradd Aberteifi would be considered by an independent arbitrator. Cllr Evans added that the school's website needs updating.

(c) Cllr Catrin Miles:

- (i) Cllr Miles stressed that the issues concerning Ysgol Uwchradd Aberteifi remain confidential.
- (ii) The matter of vehicles parking on the Prince Charles quay remains unresolved.
- (iii) The Giant Lantern Parade: It was disclosed that the collection licences have been issued for collection towards the fireworks and for Wales Air Ambulance. The Air Ambulance charity had obtained a licence for street collection on Friday, 7 December, which prevents the Traders from collecting on the streets simultaneously. The traders will accordingly collect at Small World Theatre, the Guildhall and the Castle with the Sea Scouts in assistance.

10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
173	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure – Pendre, Stryd Fawr, Stryd y Santes Fair, Y Strand, Rhiw Grosvenor.</i> Pendre, High Street, St Mary Street, The Strand, Grosvenor Hill. 7/12/18, 18:45-20:30: <i>Gorymdaith Llusernau / Lantern Parade.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 15 Tachwedd.</i> Forwarded to all councillors on 15 November.
174	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure – Williams Terrace: 15/10/18-16/10/18</i> <i>Dŵr Cymru / Welsh Water</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 20 Tachwedd.</i> Forwarded to all councillors on 20 November.
175	CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Hysbysiad am dderbyn ffurflenni'r praesept (2019-20).</i> Notice of receiving precept forms. <i>Trefniadau'r Praesept 2019-20 / Precept Arrangements</i>	<i>Y ffurflenni i'w hanfon nôl erbyn 25 Ionawr 2019.</i> The forms to be returned by 25 January 2019.
176	CSC / CCC (Hywel Wyn Jones): <i>Codi Ymwybyddiaeth o'r Côt Ymddygiad – Sesiynau Hyfforddi.</i> Raising Awareness of the Code of Conduct – Training Sessions. 18/2/18, Ysgol Uwchradd Aberteifi, 7:00pm	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 27 Tachwedd.</i> Forwarded to all councillors on 27 November.
177	CSC / CCC (Sonia Davies): <i>Cydnabyddiaeth am dderbyn llythyr y cyngor yn ymwneud â Chrwner Ceredigion.</i> Acknowledgment of letter received regarding the Ceredigion Coroner.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
178	CSC / CCC (Gari Jones): <i>Cadarnhad o benderfyniad y cyngor sir i osod manau parcio beiciau ger bron "Crwst".</i> Confirmation of the county council's decision to install cycle hoops outside "Crwst" in Priory Street.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
179	CSC / CCC (Cathryn Morgan): <i>Cynnig o feinciau am ddim i fannau chwarae.</i> An offer of free benches for play areas.	<i>Mae'r Cyng. Catrin Miles wedi hawlio mainc i Gae Chwarae Pentop.</i> Cllr Miles has claimed a bench for the Pentop Play Area.
180	CSC / CCC (Mererid Jones) <i>Poster casgliadau gwastraff adeg y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.</i> Christmas and New Year waste collection Poster.	<i>Mae poster wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> Poster has been displayed on notice board.
181	CSC / CCC (Alan Haird): <i>Diweddariad y Cynllun Lle.</i> Update of Place Plans.	<i>Eglurodd y Cyng. Clive Davies bod y bartneriaeth yn cytuno â'r amodau cymorth ariannu.</i> Cllr Davies explained that the partnership had now agreed to the funding support conditions.
182	<i>Cyfoeth Naturiol Cymru: Ymateb i lythyr y cyngor am bryderon y cyngor ynglŷn â llifogydd.</i> Natural Resources Wales: Response regarding the council's concerns of possible flooding flashpoints.	<i>Mae CNC yn nodi taw cyfrifoldeb perchennog y bont, sef Cyngor Sir Ceredigion sydd yn gyfrifol am reoli'r llanast sydd o'i hamgylch. Cytunwyd anfon y llythyr ymlaen at bwyllgor Sianel Glir Afon Teifi.</i> NRW notes that the asset owner of the bridge, Ceredigion County Council, is responsible for the debris collecting against the bridge. It was agreed to forward the response to the Afon Teifi Fairways committee.
183	<i>Llywodraeth Cymru: Gwybodaeth am y swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Gwariant Adran 137 y terfyn ar gyfer 2019-20.</i> Welsh Government: Appropriate Sum under Section 137(4)(a) of the Local Government Act 1972 - Section 137 expenditure limit for 2019-20: £8.12 per elector.	<i>Gwybodaeth gogyfer â chyfarfod y Gyllideb ym mis Ionawr 2019.</i> Information to be discussed at the Budget meeting in January 2019.
184	Antur Teifi: <i>Digwyddiad Busnes Cymru yn "Crwst", 22 Tachwedd.</i> Business Event at "Crwst" on 22 November.	<i>Mae poster wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> Poster has been displayed on notice board.

185	<i>Grwp Cefnogi Clefyd Parkinsons: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i ginio Nadolig.</i> Parkinsons Support Group: Invitation to the Mayor and Mayoress to a Christmas lunch, 18/12/18 at Newcastle Emlyn Rugby Club, 12:00 for 12:30pm.	<i>Mae'r Maer wedi derbyn y gwahoddiad.</i> The Mayor has received the invitation.
186	<i>Wales & West Housing Association (Rhiannon Ling): Cais am sefydlu canolfan i gynorthwyo pobl anghenus yr ardal.</i> Application for support to provide a drop-in centre for the less fortunate in our community.	<i>Gofynnwyd i'r aelodau anfon syniadau at y clerc cynted â phosib.</i> Members were asked to forward suggestions to the clerk as soon as possible.
187	<i>Grŵp Eglwysi Aberteifi: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i wasanaeth Carolau.</i> The Cardigan Group of Churches: Invitation to the Mayor and Mayoress to a carol service on 16 December at 5:00pm.	<i>Mae copi wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> Copy has been forwarded to the Mayor.
188	<i>Wales & West Housing Association: Cais am llythyr o gefnogaeth i gynnis cydnabyddiaeth i Mr Ian Stoker.</i> Application for a letter of support to the Association's endeavour to commend Mr Ian Stoker for his community effort in litter picking.	<i>Mae'r Cyng. Adams-Lewis a Catrin Miles ynghyd â'r clerc wedi anfon llythyron o gefnogaeth gan ddiolch i Mr Stoker am ei gyfraniad diflino i'r amgylchedd.</i> Cllrs Adams-Lewis and Catrin Miles and the clerk have forwarded letters of support for Mr Stoker's continuing good work for the environment.
189	<i>Mr Ken Griffiths, Lleifior, Ferwig: Cadarnhad ei fod yn derbyn y gwahoddiad i archwilio cyfrifon y cyngor am 2018-19 fel Archwilydd Mewnol.</i> Confirmation that Mr Griffiths accepts the council's invitation to serve as Internal Auditor for the 2018-19 accounts.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
190	<i>Bro Teifi Sheltered Tenants Association: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion: Mawrth, 2019.</i> <i>To be discussed at the Grants Sub-committee: March 2019</i>
191	<i>Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Aberteifi / Cardigan Building Preservation Trust: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion: Mawrth, 2019.</i> <i>To be discussed at the Grants Sub-committee: March 2019</i>
192	<i>Cymdeithas Gofal / The Care Society: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion: Mawrth, 2019.</i> <i>To be discussed at the Grants Sub-committee: March 2019</i>
193	<i>Pwll Nofio Aberteifi: Llythyr yn egluro sefyllfa ariannol presennol yr elusen.</i> Cardigan Swimming Pool & Leisure Complex: Letter to raise awareness of the financial difficulties facing the charity.	<i>Cynhelir cyfarfod cyhoeddus ar 18 Rhagfyr yn y Pwll Nofio am 7.30yh.</i> A public meeting will be held at the Complex on 18 December at 7.30pm.

Alan Haird: *Swyddog Rheoli a Datblygu Prosiectau / Project Management and Development Officer*
Cathryn Morgan: *Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf / Families First Coordinator*
Eifion Evans: *Prif Weithredwr / Chief Executive*
Elin Jones: *Swyddog Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Officer*
Gari Jones: *Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth / Assistant Engineer Transport Strategy*
Hywel Wyn Jones: *Cadeirydd Pwyllgor Moeseg a Safonau / Chairman of the Ethics and Standards Committee*
Mererid Jones: *Ailgylchu / Recycling*
Stephen Johnson: *Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol / Head of Financial Service*

11. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 20 Tachwedd.

Confirmation of 20 November Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Shan Williams bod cofnodion y cyfarfod yn gywir.

Cllr Graham Evans proposed that the minutes of the meeting were correct; seconded by Cllr Shan Williams.

Materion yn codi Matters arising

Tud. 1429(c): Enwebu aelod i wasanaethu ar fwrdd llywodraethol Ysgol Uwchradd Aberteifi. Enwebwyd y Cyng. Shan Williams i wasanaethu ar y bwrdd. Diolchwyd iddi gan y Maer. Anfonir yr wybodaeth a manylion cyswllt y Cyng. Williams ymlaen at Wendy Rattray, swyddog cefnogi llywodraethwyr y cyngor sir gan y clerc.

Page 1429(c): Nomination of a member to serve on the Ysgol Uwchradd Aberteifi governing board. Cllr Shan Williams was nominated to serve as governor. She was thanked by the Mayor. Cllr Williams' contact details will be forwarded by the clerk to Wendy Rattray, the county council governor support officer.

Tud. 1429(d): Mae'r postyn miniog, peryglus wedi ei symud o Ardd Victoria.

Page 1429(d): The dangerous steel stump has been removed from Victoria Garden.

Tud. 1429(f): Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cyng. Yvonne O'Neill, mae'r cyngor wedi derbyn caniatâd i arddangos dwy garreg fach fel swfenîr o ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn Ystafell Radley. Cytunwyd i'r clerc eu gosod mewn ffurf i'w harddangos.

Page 1429(f): Following a discussion with Cllr Yvonne O'Neill, permission has been obtained to keep two pebbles commemorating the end of the First World War as souvenirs in Ystafell Radley. It was agreed for the clerk to prepare the display of the pebbles.

Sianel Glir Afon Teifi: Dywedodd y Cyng. Richard Jones bod nifer yr angorfeydd ar yr afon wedi lleihau o 200 i 116 tra bo'r costau angori wedi cynyddu. Bydd y gwaith ar y sbit yn Patch yn lleihau hefyd.

Afon Teifi Fairways Committee: Cllr Richard Jones stated that the number of moorings on the river had decreased from 200 to 116 and that the mooring charge had been increased. The work on the spit at Patch would be reduced.

12. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Y Cyng. / Cllr Yvonne O'Neill:**

- (i) **Tagfeydd y drafnidiaeth yn Stryd Napier yn ystod cyfnod Ffair Aberteifi. Gwyntylodd y Cyng. O'Neill y problemau a'r perygl i blant yn ystod cyfnod Ffair Aberteifi. Cytunwyd bod y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod llywodraethwyr Ysgol Gynradd Aberteifi ar 6 Rhagfyr a bod llythyr yn cael ei anfon at Mr Gari Jones, Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth y cyngor sir.**

Traffic congestion in Napier Street during the Cardigan Fair period. Cllr O'Neill stressed the potential danger of the increased traffic to children during the period of Cardigan Fair. It was agreed to highlight the concern at the Ysgol Gynradd Aberteifi governors meeting on 6 December and that a letter be forwarded to Mr Gari Jones, Assistant Engineer Transport Strategy, at the county council.

(b) **Y Cyng. / Cllr Steffan Morgan:**

- (i) **Pris am osod clwyd rhwng y cyrtau tenis a'r Clwb Bowls.**

Quotation from Anvil Fabrication & Metalworks for the manufacture, painting and fitting of a gate between the tennis courts and the Bowling Club = £500.

(Application on behalf of the King George 5th Playing Field Advisory Committee.)

Gan fod ymddiriedolwr y Cae Chwarae wedi cytuno gosod clwyd rhwng y cyrtau tenis a'r Clwb Bowls yng nghyfarfod blynyddol yr elusen at 10 Hydref, cynigiodd y Cyng. Richard Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Siân Maehrlein bod y Pwyllgor Ymgynghorol yn symud ymlaen i osod y glwyd yn ei lle a derbyn y gost o £500.

As the trustee of the Playing Field had agreed to place a gate between the tennis courts and the Bowling Club at the AGM on 10 October, Cllr Richard Jones proposed that the Advisory Committee moves to place the gate in place at a cost of £500; Cllr Siân Maehrlein seconded the proposal.

(c) **Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein:**

(i) **Goleuadau stryd yn ymyl 122/125 Maesglas.**

Cytunodd y Cyng. Adam-Lewis gysylltu gyda Mr Simon Bray, swyddog goleuadau strydoedd y cyngor sir, unwaith eto.

Malfunctioning street lights: 122/125 Maesglas.

Cllr Adams-Lewis agreed to contact Mr Simon Bray, county council street lights officer, once again.

(ii) **Llifogydd yn Felinban.**

Cytunodd y Cyng. Adam-Lewis hel gwybodaeth am berchnogaeth y safle.

Floods at Felinban.

Cllr Adams-Lewis agreed to seek out ownership of the land.

(d) **Y Cyng. / Cllr Graham Evans:**

(i) **Glanhau cafnew adeiladau'r Stryd Fawr, Pendre a Stryd y Priordy.**

Yn dilyn trafodaeth am gyflwr y gwteri ar adeiladau ym mhrif strydoedd Aberteifi, cynigiodd y Cyng. Richard Jones fynd ati i'w glanhau pan fydd yn tynnu'r addurniadau Nadolig i lawr yn y flwyddyn newydd. Ymyrrwyd gan y clerc gan ddatgan bod goblygiadau cyfreithiol yn gysylltiedig gyda'r weithred. Yn ychwanegol, cyfeiriodd at gyfrifoldebau yswiriant a hefyd mesurau cau'r ffordd a gosod arwyddion rhybudd i gerddwyr, camau iechyd a diogelwch, ayyb. Byddai gwarchod cerbydau ar hyd y strydoedd hefyd yn ofid. Yn ei dyb ef nid oedd gweithredu yn y modd yma ar adeiladau pefat yn rhan o ddyletswyddau cynghorau tref a chymuned. I'r perwyl hwn hefyd, byddai codi tâl ar berchnogion/landlordiaid am y gwaith, fel a awgrymwyd, yn anymarferol gan y rhagwelir y byddai costau cyfreithiol pe bai anghydfod yn codi rhwng y cwsmer a'r cyngor; gan fod y cyngor wedi ei gorfrestru i dderbyn y dreth ar werth yn ôl am daliadau, byddai cwestiynau yn codi am godi'r dreth ar gwsmeriaid. Cyfrifoldeb y cyngor sir yw sicrhau glendid a diogelwch palmentydd a llwybrau. Cytunwyd i'r clerc baratoi taflen yn gofyn yn barchus i berchnogion yr adeiladau i gymryd gofal a sicrhau glendid eu meddiant. Cytunodd y Cyng. Graham Evans ddsbarthu'r taflenni i bob adeilad.

Cleaning of guttering of buildings in High Street, Pendre and Priory Street.

Following a discussion regarding the cleaning of the guttering and the offer of Cllr Richard Jones to so do during the dismantling of the Christmas lights in January, the clerk intervened and stressed the legal obligations involved. In addition, the insurance schedule would need scrutinising for public liability and also employer's liability; street closures and hazard warning signs for pedestrians would be an additional issue with roadside parking of vehicles an obstruction; health and safety legislation would need to be adhered to. Following a suggestion that the council might charge owners/landlords for the work, the clerk responded by stating that it would be quite impractical with the possible scenario of a dispute between the council and customer potentially leading to court action for payment. As the council is registered with Her Majesty's Customs & Excise for VAT repayments, the clerk anticipates that council work would be liable to VAT on services.

He added that it was not within the remit of town and community councils to intervene in maintenance matters of private property. The county council has responsibility for maintenance and cleaning of footpaths and walkways.

It was agreed that the clerk produces a leaflet kindly requesting owners/landlords of properties to take action to clean and make safe all guttering on their establishments. Cllr Graham Evans volunteered to deliver the leaflets.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.00yh

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.00pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date